

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y
PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: CRAFFU AR GYLLIDEB
DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU 2019-20**

IONAWR 2019

Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 ar 8 Tachwedd 2018. Yn dilyn y sesiynau hynny, mae'r Pwyllgor wedi cwblhau adroddiad sy'n cynnwys 25 o argymhellion. Ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r argymhellion hynny yw'r papur hwn.

1. Tryloywder, atebolrwydd ac effaith

Asesiadau o Effaith

Argymhelliad 1

Bod Llywodraeth Cymru, o gofio am y galwadau niferus gan y Pwyllgor PPIA a Chomisiynydd Plant Cymru, yn ailystyried ei sefyllfa mewn perthynas â chyllidebu ar gyfer plant ac yn asesu effaith ei phenderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant. Dylai hyn gael ei lywio gan ailystyried casgliadau ac argymhellion adroddiad 2009 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Gyllidebu Plant yng Nghymru. Dylai asesiadau effaith yn y dyfodol ddangos casgliadau ystyrion, yn seiliedig ar dystiolaeth

Ymateb: Gwrthod

Caiff proses y gyllideb yn Llywodraeth Cymru ei llywio gan drafodaethau gyda Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol ac ystod eang o randdeiliaid eraill sydd â budd allweddol. Fel rhan o'n gwelliannau parhaus i broses y gyllideb, rydym wedi cynnwys Asesiad o Effaith Integredig Strategol eleni (SIIA) fel rhan o'r Gyllideb amlinellol a'r Gyllideb ddrafft fanwl. Mae'r broses integredig honno yn cynnwys ystyriaeth glir o effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant.

Drwy ddefnyddio dull integredig, rydym yn deall yn well beth yw effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol, y Gymraeg ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol ym mywydau'r bobl ifanc hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i gyhoeddi asesiadau effaith integredig ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb ddrafft.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cynnal asesiadau manwl o effaith, gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), fel rhan o'n gwaith parhaus ar ddatblygu ac adolygu polisi. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau'r gyllideb a'r asesiad o effaith ehangach y gyllideb. Mae'r dull hwn, yng nghyd-destun dyraniadau'r gyllideb, yn sicrhau y caiff tystiolaeth a dealltwriaeth o effeithiau eu hystyried o'r dechrau a thrwy gydol ein gwaith o baratoi'r gyllideb.

Mae ein dull newydd integredig o asesu effaith yn dal i'w gwneud yn ofynnol i hawliau plant gael eu hystyried, a chwblhau asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant pan fo angen hynny. Mae'r broses CRIA yn rhoi lle canolog i hawliau plant wrth i ni ddatblygu deddfwriaeth, polisiau newydd a rhaglenni.

2. Addysg

Argymhelliad 2

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro'r rhesymeg a'r diben penodol y tu ôl i'r £7.5 miliwn ychwanegol ar gyfer dyfarniadau tâl athrawon yn 2018-19 a 2019-20, o ystyried y symiau sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20;
- yn egluro ai bwriad yr arian ychwanegol hwn yw talu cyfraniadau pensiwn cyflogwyr (nad oedd arian wedi ei sicrhau ar ei gyfer eto) neu gwrdd â phwysau na ragwelwyd neu na chyfrifwyd amdanynt yn y dyraniadau o £8.7 miliwn a £13.7 miliwn a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 yn ogystal â 2019-20;

yn egluro i ba MEG a BEL y bydd y £7.5 miliwn yn cael ei ddyrannu yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19 a Chyllideb Derfynol 2019-20;

yn egluro pa ystyriaeth a roddwyd i ddyrannu'r cyllid ychwanegol i liniaru'r pwysau ar gyllidebau craidd ysgolion yn hytrach nag yn benodol ar gyfer dyfarniad tâl athrawon (gan gydnabod bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau).

Ymateb: Derbyn

Dyrannwyd £21.8 miliwn ychwanegol dros ddwy flynedd (£8.1 miliwn yn 2018-19 a £13.7 miliwn yn 2019-20) ynghyd â'r Gyllideb ddrafft amlinellol i gefnogi'r dyfarniad cyflogau athrawon ysgol ar gyfer y blynyddoedd rhwng y flwyddyn feithrin a blwyddyn 11. Caiff y cyllid ar gyfer 2018-19 ei gyfeirio drwy grant penodol i awdurdodau lleol a chaiff y cyllid ar gyfer 2019-20 ei ddyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Cafodd cyllid ychwanegol o £1.705 miliwn dros ddwy flynedd (£0.631 miliwn yn 2018-19 a £1.074 miliwn yn 2019-20) ar gyfer cyflogau athrawon hefyd ei ddyrannu ar gyfer cyflogau athrawon chweched dosbarth drwy'r MEG Addysg.

Mae'r cyllid hwn yn cwmpasu'r gwahaniaeth rhwng y dyfarniad cyflogau athrawon a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg, a chostau dyfarniad cyflog o 1% y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion fod wedi cynllunio ar ei gyfer o dan y cap blaenorol ar gyflogau'r sector cyhoeddus.

Fel rhan o'r pecyn cyllido ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd ar 20 Tachwedd, dyrannwyd £7.5 miliwn ychwanegol ym mhob un o'r blynyddoedd 2018-19 a 2019-20. Bwriad y taliadau unigol hyn yw lliniaru ychydig ar y pwysau cyllidebol sy'n deillio o agenda cyni Llywodraeth y DU. Yn benodol, bwriedir i'r cyllid hwn gynorthwyo i liniaru'r pwysau uniongyrchol sy'n parhau o ran gweithredu dyfarniad cyflogau 2018-19 athrawon a rhoi ychydig o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer 2019-20.

Fel rhan o'r pecyn ariannu ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, rydym hefyd wedi ysgrifennu, ar y cyd gyda CLILC, at y Canghellor i ailadrodd ein galwad i Lywodraeth y DU ariannu costau cynyddol cyflogwyr yn llawn o ran newidiadau i bensiynau. Ni chawsom ymateb hyd yn hyn.

Caiff y £7.5 miliwn ar gyfer 2018-19 a 2019-20 ei ddyrannu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar Ddatblygu a Chefnogi Athrawon yn y MEG Addysg.

Argymhelliad 3

Bod Llywodraeth Cymru yn myfyrio ymhellach, ac yn darparu asesiad wedi ei ddiweddarau yn dilyn Cyllideb Derfynol 2019-20, ar ddigonolrwydd lefel gyffredinol y cyllid refeniw sydd ar gael ar gyfer addysg, yng ngoleuni'r gostyngiad termau real mewn cyllid refeniw yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 (drwy'r DEL Addysg, y DEL Llywodraeth Leol a'r DEL Gwasanaethau Cyhoeddus).

Ymateb: Derbyn

Er gwaethaf rhaglen gyni barhaus Llywodraeth y DU a gostyngiadau mewn termau real i'r gyllideb ar gyfer Cymru, rydym wedi cymryd camau yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2019-20 i ddiogelu lefel gyffredinol y cyllid sydd ar gael ar gyfer addysg, gan gynnwys ysgolion, drwy'r Setliad Llywodraeth Leol.

Yng Nghyllideb Derfynol 2019-20, a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2018, dyrannwyd £21.6 miliwn o refeniw yn ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2019-20. Fel y cyfeirir yn ein hymateb i argymhelliad dau, mae hyn yn cynnwys y £7.5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2019-20 i gynorthwyo gyda'r pwysau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad cyflogau athrawon 2018/19, a gyhoeddwyd fel rhan o becyn cyllid ychwanegol i lywodraeth leol sydd werth cyfanswm o £141.5 miliwn dros dair blynedd (2018-21). Rydym hefyd wedi darparu £4.8 miliwn mewn refeniw ychwanegol i gefnogi'r setliad cyflog Addysg Bellach.

Cytunwyd ar ddyraniadau pellach hefyd er mwyn: ymestyn y cynllun Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad ymhellach (£1.6 miliwn); gwella'r gefnogaeth i weithgareddau cerddoriaeth i bobl ifanc (£0.5 miliwn); ac ymestyn y cynllun Bwyd a Hwyl / Food and Fun, sy'n cefnogi plant yn rhai o'r ardaloedd sydd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn ystod gwyliau'r haf (£0.4 miliwn).

Argymhelliad 4

Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi meini prawf eglur yn esbonio'r sail ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion naill ai drwy gyllid llywodraeth leol heb ei neilltuo neu ddyraniadau wedi eu neilltuo dan y MEG Addysg.

Ymateb: Gwrthod

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gyllid ysgolion, fel sydd wedi'i nodi yn ôl y gyfraith. Felly nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu ysgolion yn uniongyrchol; caiff cyllid ei gyfeirio drwy awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol. Nid yw'r rhan

fwyaf o'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol ar gyfer addysg drwy'r setliad llywodraeth leol wedi ei neilltuo, felly nid yw'n bosibl nodi'r elfen ysgolion fel hyn. Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu beth yw anghenion ac amgylchiadau lleol a chyllido ysgolion yn unol â hynny. Ar ôl i'r Grant Cynnal Refeniw gael ei ddsbarthu i awdurdodau lleol, eu cyfrifoldeb hwy yw pennu cyllidebau ar gyfer ysgolion yn unol â'r fformiwla gyllido leol. Mae'r Llyfr Gwyrdd¹ yn nodi beth yw cyfansoddiad fformiwla gyllido llywodraeth leol.

Mae gan unrhyw grantiau penodol a gaiff eu dyrannu o'r MEG Addysg sy'n cefnogi canlyniadau a gaiff eu darparu gan ysgolion delerau ac amodau grant clir ar waith eisoes sydd wedi'u cytuno gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Argymhelliad 5

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn gweithio'n fwy rhagweithiol â llywodraeth leol i leihau nifer yr ysgolion sy'n cadw arian wrth gefn uwchlaw'r trothwy statudol;
- yn rhoi sicrwydd, yn dilyn trafodaeth â llywodraeth leol, bod pob ysgol sy'n cadw arian wrth gefn uwchlaw'r trothwy statudol yn gwneud hynny am reswm dilys a bod ganddi gynllun clir i wario'r arian yn briodol.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Leol a CLILC a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau mai Llywodraeth Leol sy'n gallu cyflawni orau o ran ein blaenoriaethau ar y cyd, gan gynnwys sicrhau bod pob ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.

¹ <https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lg-settlement-2018-19/green-book-2018-19/?skip=1&lang=cy>

Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod ganddynt systemau i leihau balansau a diffygion ysgolion yn unol â'r symiau deddfwriaethol a nodir yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Mae pwerau i gyfeirio ysgolion i wario ac adennill cyllidebau dros ben yn un o lu o ddulliau sydd ar gael i awdurdodau lleol gefnogi ysgolion i reoli cyllid yn dda. Dylai pob ysgol sydd ag arian dros ben yn eu cyllidebau eu cyflwyno i'w hawdurdod i'w cymeradwyo, gyda chynlluniau gwario yn nodi sut y maent yn bwriadu lleihau'r arian dros ben, a dylai'r rhain fod yn destun gwaith monitro parhaus gan yr awdurdod, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau a gymeradwywyd yn cael eu defnyddio, neu fod gormodedd o arian dros ben yn cael ei adennill. Dylai fod gan ysgolion sydd â diffyg ariannol gynllun adfer cadarn yn ei le y cytunwyd arno gyda'r awdurdod lleol ac sy'n cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd rhai ysgolion yn dal eu gafael ar arian dros ben am resymau dilys, megis cyllid ar gyfer prosiectau penodol. Rydym hefyd yn cydnabod efallai fod ysgolion, mewn cyfnod o gyni, am ddal eu gafael ar lefel resymol o arian wrth gefn. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag ysgolion i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhelliad 6

Bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau:

- a yw'r £9 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i addysg broffesiynol athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2018-19) wedi cael ei ddarparu o gronfeydd wrth gefn neu o fannau eraill (ac os daeth o fannau eraill, manylion am y manau hynny);
- a fydd y £9 miliwn ychwanegol yn 2018-19 yn cael ei ddyrannu i'r BEL Athrawon a Datblygu (fel yn achos y £15 miliwn ychwanegol yn 2019-20) ac, os felly, a fydd ail drosglwyddiad o £9 miliwn i BEL Athrawon a Datblygu 2018-19 ar ben y £8 miliwn sydd eisoes wedi ei gynllunio i gyllido'r dyfarniad tâl athrawon ar gyfer blynyddoedd 1 i 11 mewn ysgolion.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (NAPL), bydd y £9 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon, a £15 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, ar gyfer dysgu proffesiynol yn rhoi'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Caiff y £9 miliwn ar gyfer 2018-19 ei ddarparu drwy ail-flaenoriaethu adnoddau o fewn y MEG Addysg, a chaiff ei ddyrannu i'r Llinell Wariant Datblygu a Chefnogi Athrawon yn y Gyllideb fel rhan o Ail Gyllideb Atodol 2018-19, y disgwylir ei chyhoeddi ar 5 Chwefror.

Mae'r cyllid yn ychwanegol at y cyllid o £8.7 miliwn ar gyfer cyflogau athrawon yn 2018-19, a'r £7.5 miliwn i fodloni'r pwysau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r dyfarniad cyflogau athrawon, a gaiff eu dyrannu o Gronfeydd Wrth Gefn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb fel rhan o Ail Gyllideb Atodol 2018-19.

Argymhelliad 7

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi amlinelliad o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer y buddsoddiad i leihau maint dosbarthiadau babanod, gan gynnwys ystyriaethau o ran cost cyfle, ac asesiad parhaus ar sail tystiolaeth o effaith y buddsoddiad ar ganlyniadau addysgol yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Cafodd y gwaith ymchwil mwyaf sylweddol yn y DU i faint dosbarthiadau ei gynnal gan y Sefydliad Addysg, sydd ymysg y gorau yn y byd, yng Ngholeg Prifysgol, Llundain. Gan olrhain dros 20,000 o ddisgyblion mewn dros 500 o ddosbarthiadau, mewn 300 o ysgolion, daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad clir bod maint dosbarthiadau yn cael effaith ar gyflawniad academaidd yn ystod y blynyddoedd cynnar a bod disgyblion o grwpiau sy'n cyflawni'n is yn elwa'n arbennig o ddosbarthiadau llai. Mae'r canlyniadau hyn yn cymharu â phrosiectau tebyg ac ymyriadau polisi a gynhaliwyd yng ngogledd America.

Yn 2003, adroddodd Estyn bod manteision, i rai grwpiau o blant - yn arbennig ein plant iau, y rhai ag anghenion arbennig, y rhai sy'n cael eu haddysgu mewn iaith wahanol i'w hiaith gyntaf, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol a diwylliannol uchel – o gael eu haddysgu fel rhan o grŵp bach. Argymhellodd Estyn, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ddilyn polisi o leihau maint dosbarthiadau, y dylid targedu'r grwpiau hyn o blant. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r polisi hwn yn cael ei gyflwyno ar ei ben ei hun – mae'n rhan o gyfres o bolisiâu i godi safonau addysg, gan gynnwys safonau proffesiynol newydd i athrawon ac arweinyddiaeth.

Fel rhan o'u hachosion busnes a cheisiadau cyfalaf am y grant, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu amrywiaeth eang o ddata gwaelodlin mewn cysylltiad â maint dosbarthiadau a pherfformiad ynghyd â gwelliant posibl mewn deilliannau. Mae'r cynlluniau hyn bellach wedi cael eu cymeradwyo a bydd dros 90 o athrawon ychwanegol a 18 o gynorthwywyr dosbarth yn cael eu penodi a 56 o ddsbarthiadau ychwanegol yn cael eu creu er mwyn lleihau'r dosbarthiadau babanod mwyaf mewn dros 100 o ysgolion sydd hefyd â lefelau uchel o amddifadedd a/neu anghenion ychwanegol neu lle mae angen gwella dysgu ac addysgu.

Yn amlwg, bydd cyfnod o oedi tra bydd athrawon gael eu penodi a dosbarthiadau newydd yn cael eu hadeiladu. Mae'r taliad grantiau yn amodol ar gymeradwyo adroddiadau cynnydd fesul tymor. Byddwn yn parhau i fonitro effaith Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod ar ddeilliannau yn yr ysgolion hyn drwy adroddiadau cynnydd gan awdurdodau lleol a data cyfrifiadau ysgolion.

Argymhelliad 8

Bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw pob un o'r grantiau llai sydd yn y Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol newydd, mwy o faint, wedi eu neilltuo.

Ymateb: Derbyn

Cafodd dadansoddiad o elfennau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2018-19 eu darparu i'r Pwyllgor mewn llythyr ymateb dyddiedig 5 Rhagfyr, yn dilyn sesiwn graffu ar gyllideb y MEG Addysg ar 8 Tachwedd.

Cadarnhaodd y llythyr nad oedd gofyniad penodol i Gonsortia neilltuo cyllid. Fodd bynnag, fel rhan o'r cytundeb cyllido, mae'n ofynnol i Gonsortia sicrhau y caiff cyllid ei ddefnyddio i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg. Hefyd, mae'n ofynnol i Gonsortia ddarparu ymrwymiad clir i drosglwyddo'r mwyafrif o gyllid i ysgolion wrth gynllunio gweithgareddau a llunio cynlluniau busnes.

Argymhelliad 9

Bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei chynlluniau, unwaith y byddant ar gael, ynghylch sut bydd y £1.8 miliwn ychwanegol ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn 2019-20 yn cael ei ddefnyddio, a sut caiff gwariant a chanlyniadau eu monitro o ran fforddiadwyedd a gwerth am arian.

Ymateb: Derbyn

Mae pecyn Cyllideb Derfynol 2019-20 yn ategu ein hymrwymiad i'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, drwy godi'r cyllid £1.6 miliwn yn 2019-20. Mae hyn yn ychwanegol at yr £1.8 miliwn arall a ddyrannwyd yn y Gyllideb ddrafft. Mae hyn y golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn uwch na £5 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n gynydd o £3.3 miliwn o'r cyllid ar gyfer 2018-19.

Mae gwaith modelu ariannol yn cael ei gynnal i asesu'r defnydd mwyaf effeithiol o'r cyllid ychwanegol. Caiff yr opsiynau eu trafod gyda'r partneriaid cyflawni er mwyn canfod rhwystrau posibl rhag gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r cynlluniau terfynol ar gyfer y buddsoddiad ychwanegol a'r trefniadau monitro cysylltiedig unwaith y byddant wedi'u cytuno.

Argymhelliad 10

Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos effaith dileu'r BEL Llywodraethu Ysgolion annibynnol er mwyn osgoi unrhyw amhariad ar y cymorth sydd ar gael i lywodraethwyr, a chanlyniadau anfwriadol o ran gwella ysgolion.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn monitro i ba raddau y mae llywodraethwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo. Mae llywodraethwyr yn cael cymorth yn bennaf drwy eu hawdurdod lleol. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant fel y mae'n barnu sydd ei angen er mwyn galluogi llywodraethwyr i ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol. Mae'n rhaid iddynt wneud hynny am ddim i bob llywodraethwr unigol.

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i wneud hyfforddiant llywodraethwyr yn orfodol o ran rhai materion penodol. Cafodd Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 eu llunio at y dibenion hyn a daethant i rym ym mis Medi 2013. Mae'r mesur hwn yn ei gwneud yn ofynnol i rai llywodraethwyr ymgymryd â hyfforddiant cynefino, deall data ysgolion a hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion (pan fydd hyn yn berthnasol).

Rhoddwyd y gorau i ariannu llywodraethwyr Cymru yn 2018 yn dilyn tystiolaeth bod eu darpariaeth yn cael ei dyblygu gan swyddogaethau statudol yr awdurdod lleol a'r defnydd bach o'u gwasanaeth llinell gymorth. Nid oedd hyn yn ddefnydd effeithiol o bwrs y wlad.

Mae llywodraeth Cymru yn disgwyl ansawdd a chapasiti digonol o gymorth llywodraethwyr ledled Cymru ac rydym wedi gofyn i lywodraeth leol ystyried a ddylai'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol gynnwys y ddarpariaeth hon o fewn ei chwmpas. Ar hyn o bryd, mae hyn yn amrywio ledled Cymru.

Rydym yn ystyried opsiynau er mwyn sicrhau bod llywodraethwyr yn parhau i ymgysylltu'n llawn â'r diwygio addysgol trawsnewidiol sy'n digwydd ar hyn o bryd. Cyrff llywodraethu yw'r llinell atebolrwydd gyntaf ar gyfer ysgolion felly mae angen

cefnogaeth ddigonol arnynt. Nid oedd llinell gyllido ar gyfer asiantaeth allanol, er bod hynny'n gymharol uchel o ran proffil, yn darparu modd o wneud hynny.

Argymhelliad 11

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau:

- nad yw symud gwerth £2 filiwn o adnoddau o Gam Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg i Gam Gweithredu y Gymraeg yn arwain at golli pwyslais ar addysg cyfrwng Cymraeg fel cyfrwng i gwrdd â tharged Cymraeg 2050;
- bod y cyfle i alinio nodau'r cynnig gofal plant gyda rhai Cymraeg 2050 yn parhau i gael ei ddilyn yn y modd a ddangosir gan y defnydd arloesol o gyllid cyfalaf trawsbortffolio.

Ymateb: Derbyn

Caiff cyllideb Is-adran y Gymraeg ei dyrannu yn ôl blaenoriaethau Cymraeg 2050 ac mewn meysydd lle y gellir cael yr effaith fwyaf. Caiff y camau a weithredir drwy y Gymraeg mewn Addysg eu cefnogi gan weithgareddau a gaiff eu cyllido a'u cefnogi gan Gam Gweithredu'r Gymraeg ac fel arall. Er enghraifft, mae cefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol yn cefnogi datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac mae meithrin sgiliau yn y Gymraeg yn cefnogi'r economi a'r gweithle. Ni fydd trosglwyddo £2 filiwn rhwng gwahanol weithgareddau yn arwain at golli unrhyw bwyslais ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 12

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro, er mwyn tryloywder a chraffu effeithiol, y modd y rhennir Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar draws darpariaethau chweched dosbarth, sefydliadau addysg bellach ac addysg oedolion yn y gymuned ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20;
- yn amlinellu lefel yr arian ychwanegol sydd i'w ddarparu i sefydliadau addysg bellach yn dilyn datganiad y Gweinidog ar 20 Tachwedd, ac yn cadarnhau y bydd hyn yn cyllido'r cytundeb cyflog yn llawn.

Ymateb: Derbyn

Wrth ysgrifennu hyn, ni allwn ddarparu nodyn i'r Pwyllgor gyda phob dyraniad cyllid (Chweched Dosbarth, Corfforaethau Addysg Bellach, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a dyraniadau sylweddol eraill), o fewn Camau Addysg Ôl-16 gan nad yw'r symiau penodol o gyllid ar gyfer pob gweithgaredd yn 2019-20 wedi eu trefnu eto. Rydym yn fwy na bodlon ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r dyraniadau pan fydd hyn yn hysbys, sy'n debygol o fod tua diwedd y mis hwn.

Fel cyfanswm, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu £3.2 miliwn yn 2018-19 a £4.8 miliwn yn 2019-20 i gefnogi'r setliad cyflog AB. Mae hyn yn unol â'r cais cyffredinol gan y sector am gymorth ychwanegol, y tu hwnt i gynnig cyflog cychwynol y sector i'r staff.

Argymhelliad 13

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagamcaniadau dangosol Difidend Diamond sy'n dangos rhagamcan o gyfanswm maint y Difidend a'r swm rhagamcanol fydd ar gael bob blwyddyn wrth weithredu.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Darparwyd y rhagdybiaethau cynllunio cyllideb dangosol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r diwygiadau i gymorth i fyfyrwyr ac addysg uwch gennym mewn llythyr ymateb ar 5 Rhagfyr i'r Pwyllgor, yn dilyn sesiwn graffu ar y gyllideb MEG Addysg ar

8 Tachwedd. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'n bwysig iawn pwysleisio y dylid ystyried y ffigurau fel amcangyfrif o'r rhagolygon, ac nid ymrwymiad. Mae dadansoddiad o oblygiadau cyllideb ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond yn deillio o ragolygon, yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n edrych ymlaen nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Er y caiff y rhagdybiaethau hyn eu cytuno a'u rheoli drwy weithdrefnau llywodraethu sydd wedi eu hen sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru, maent yn destun adolygiadau a newidiadau rheolaidd, wrth gael gafael ar fwy o ddata. Bydd y rhagdybiaethau macro-economaidd sy'n ganolog i'r rhagolygon hyn (e.e. rhagolygon chwyddiant yn y dyfodol a thwf enillion gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol) hefyd yn destun adolygiad rheolaidd.

Ar wahân i'r ansicrwydd arferol sy'n ymwneud â hawliau myfyrwyr, y galw, a ffactorau macro-economaidd, a fydd yn gwneud i'r rhagolygon newid, mae ffactorau allanol eraill y bydd angen i ni eu hystyried neu ymateb iddynt. Cafodd canlyniad adolygiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o driniaeth cyfrifyddu benthyciadau myfyrwyr ei gyhoeddi ar 17 Tachwedd ac rydym yn aros i weld sut y bydd y cyhoeddiad hwn yn effeithio ar Adolygiad Augar o gyllid ôl-18 yn Lloegr. Er na all yr adolygiadau hyn effeithio ar y diwygiadau radical i gymorth cynhaliaeth yr ydym wedi eu gweithredu, mae gan ymateb Llywodraeth y DU y potensial i ddylanwadu ar rai o'r ffiniau ariannol rydym yn eu defnyddio ac efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymateb. Yng ngoleuni'r dibyniaethau a'r ansicrwydd, gobeithio ei bod yn glir y bydd yr hyn y cyfeiriwch ato fel "Difidend Diamond" yn cael ei benderfynu gan lawer mwy na dim ond diwygio polisi cymorth i fyfyrwyr yn unig.

Argymhelliad 14

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro a fydd y £5 miliwn a ail-flaenoriaethir i'r MEG Addysg o'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 ('Difidend Diamond') yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y sector addysg uwch ac addysg bellach yn unol ag ymrwymadau blaenorol Llywodraeth Cymru;

▪ yn nodi'n glir mewn cyllidebau yn y dyfodol i ba feysydd penodol y dyrennir unrhyw Ddifidend Diamond.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Fel y pwysleisiwyd yn ein hymateb i argymhelliad 13, caiff yr hyn y cyfeiriwch ato fel "Difidend Diamond" ei benderfynu gan lawer mwy na dim ond diwygio polisi cymorth i fyfyrwyr yn unig. Mae'r swm a gafodd ei ailflaenoriaethu o fewn y MEG Addysg yn enghraifft o hyn, a bydd disgwyl i'r galw am gymorth myfyrwyr israddedig llawn amser fod yn is na'r rhagolygon blaenorol yn 2019/20, oherwydd newidiadau demograffig (y gostyngiad parhaus yn y boblogaeth 18 oed), yn hytrach na pholisi. I'r gwrthwyneb, bydd cynnydd demograffig mewn carfannau iau yn rhoi pwysau ar elfennau eraill o'r system addysg. Bydd gan y newidiadau hyn oblygiadau i'r ddarpariaeth AB dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a disgwylir iddynt lywio'r galw cynyddol ar gyfer AU o ddechrau'r 2020au.

Gan y bydd mwy na diwygiadau i gymorth i fyfyrwyr yn dylanwadu ar ofynion cyllidebau'r dyfodol, ni fydd bob amser yn bosibl gwahanu goblygiadau gwahanol newidiadau. Ni allwn, felly, ymrwmo i nodi holl elfennau'r hyn a elwir gennych yn "Ddifidend Diamond" o fewn dyraniadau'r gyllideb yn y dyfodol. Mae ein bwriadau wedi cael eu gwneud yn glir ar gyfer cyllido AB ac AU mewn ymateb i Adolygiad Diamond ac mae'r rhagdybiaethau cynllunio dangosol rydym wedi eu darparu ar gyfer CCAUC yn dangos ein bod yn cadw at yr ymrwymiad hwnnw.

Argymhelliad 15

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol ynghylch yr egwyddorion a fabwysiadwyd i wneud penderfyniadau rhwng mecanweithiau cyllido wedi eu neilltuo a heb eu neilltuo ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi gwneud yn glir nad yw'r cyllid a gaiff ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i CCAUC, fel corff hyd braich, wedi ei neilltuo. Caiff y Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn o ran penderfynu sut i ddyrannu'r cyllid a ddyrennir iddo gan Lywodraeth Cymru ac yna, mater i CCAUC yw penderfynu ar ddyraniadau'r adnoddau hynny, gan ystyried blaenoriaethau'r Llywodraeth a nodir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol. Bydd llythyr cylch gwaith 2019-20, a gaiff ei anfon cyn diwedd mis Mawrth 2019, yn nodi'r adnoddau ariannol a ddyrennir i CCAUC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid sydd wedi ei neilltuo er mwyn anfon neges glir i CCAUC o ran lefel y cymorth y mae o'r farn sydd ei hangen i ariannu blaenoriaethau gweinidogol penodol – er enghraifft, prentisiaethau gradd a gweithgareddau cenhadaeth ddinesig. Mewn gwirionedd, mae CCAUC yn cadw ei ddisgresiwn o ran sut i reoli ei gyllideb ac o ran dyraniadau i sefydliadau. Mae lefel a ffocws y gefnogaeth honno yn dibynnu ar gyfyngiadau cyllideb a thrafodaethau ehangach am flaenoriaethau gweinidogol ar draws y Llywodraeth.

Argymhelliad 16

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau digonol yn ei Chyllideb Derfynol ar gyfer 2019-20 i alluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gyllido'n llawn ei flaenoriaethau strategol cyn gynted â phosibl a dechrau cyllido argymhellion adolygiad Reid.

Ymateb: Derbyn

Mae cyllideb ddrafft 2019-20 yn cynnwys cyfanswm cyllid cyffredinol ar gyfer CCAUC o £150 miliwn. Credwn fod hyn yn adnoddau digonol i ariannu ei flaenoriaethau strategol a digon o gyllid i ddechrau gweithredu'r argymhellion sy'n deillio o ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond – deallwn yn y lle cyntaf mai'r flaenoriaeth fydd premiwm pwnc drud.

Fel rydym wedi egluro yn ein datganiadau, mae'r diwygiadau rydym yn eu gweithredu o ran cymorth i fyfyrwyr ac addysg uwch yn cael eu cyflwyno fesul cam

dros nifer o flynyddoedd a chaiff cyllid i CCAUC yn y dyfodol ei ystyried o fewn ein gwaith cynllunio ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y flwyddyn nesaf wrth benderfynu ar gyllidebau 2020-21 a thu hwnt.

3. Iechyd, gofal cymdeithasol a phlant

Argymhelliad 17

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn ailystyried ei safbwynt mewn perthynas â'n galwad am gyhoeddi data mwy tryloyw ar ddyraniadau cyllideb ar gyfer - a gwariant ar - wasanaethau sy'n ategu'r gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- yn gwyrddroi ei benderfyniad i drosglwyddo'r £8 miliwn blynyddol yn ychwanegol i gynorthwyo CAMHS wedi ei dargedu at y cyllid iechyd meddwl cyffredinol wedi ei neilltuo nes bydd y cymorth yn cyrraedd y lefelau gofynnol a bod y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella'n amlwg;
- yn egluro, fel mater o flaenoriaeth, faint o arian fydd ar gael ar gyfer datblygu a chyflwyno ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol;
- yn egluro ei bwriadau ar gyfer y £2.5 miliwn ychwanegol a ddyrennir yn 2019-20 i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid.

Ymateb:

Pwynt 1 – Derbyn mewn Egwyddor

Mae heriau sylweddol o ran casglu gwybodaeth fwy manwl, ond byddwn yn ystyried y sefyllfa o ran darparu rhagor o ddata i'r pwyllgor. Ar hyn o bryd, fel rhan o'r broses Cynllun Tymor Canolig Integredig, rydym wedi nodi'n glir ein disgwyliadau o ran y byrddau iechyd, sef:

- Dangos dealltwriaeth o anghenion iechyd meddwl a lles meddwl eu poblogaeth.
- Cynnal dadansoddiad o gapasiti a galw sydd hefyd yn dangos sut mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu mewn meysydd ar gyfer gwella
- Diffinio modelau gwasanaeth i ddiwallu anghenion y boblogaeth a gaiff eu cefnogi gan gynlluniau'r gweithlu.

- Dangos gwariant dros y flwyddyn flaenorol yn erbyn y dyraniad iechyd meddwl sydd wedi ei neilltuo a'r cynlluniau gwariant yn y dyfodol yn erbyn y gyllideb honno.

Wrth i'r prosesau cynllunio hyn aeddfedu, disgwyliwn i'r dull hwn ddod yn fwy cadarn a thrwy ein cynllun darpariaeth 2016-19, gosodwyd camau clir i fyrddau iechyd ddangos eu bod yn gadw at eu dyraniadau iechyd meddwl neilltuedig a nodi sut mae eu gwariant yn gwella canlyniadau i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn ac rydym yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd i wella'r gwaith adrodd hwn. Rydym yn cymryd y camau hyn ar draws yr ystod oedran.

Pwynt 2 – Gwrthod

Mae'r £8 miliwn blynyddol sydd wedi ei dargedu i CAMHS eisoes wedi ei neilltuo – ond bydd datblygiadau gwasanaeth yn CAMHS yn parhau i gael eu monitro gan waith adrodd rheolaidd o ran data amser aros a thrwy weithredu ein hymateb i'r adroddiad Cadernid Meddwl.

Pwynt 3 – Derbyn

Rydym eisoes wedi sefydlu Cyd-grŵp Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen a grŵp o uwch swyddogion trawslywodraeth i sicrhau bod gwaith 'dull ysgol gyfan' yn cael ei gyflawni'n gyflym. Byddwn yn sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi hyn, a'n hymateb ehangach i'r adroddiad Cadernid Meddwl.

Pwynt 4 – Derbyn

Caiff y £2.5 miliwn ychwanegol yn 2019-20 ei anelu at wella gwasanaethau i bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar lesiant, cadernid a materion iechyd meddwl a fydd yn dod i'r amlwg. Caiff ei lywio gan y dull pedagogaid gwaith ieuenctid, sy'n cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc, sydd mewn sefyllfa dda i gynorthwyo i fynd i'r afael â materion iechyd a llesiant meddyliol sy'n dod i'r amlwg.

Gan ymgysylltu'n agos â'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rhanddeiliaid ledled Cymru a'r Bwrdd Gwaith Iechyd Interim, caiff y gwaith hwn ei arwain o fewn y Grŵp Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel hyn,

y bwriad yw y bydd yn rhan o ymateb cydgysylltiedig trawslywodraeth i'r adroddiad Cadernid Meddwl. Felly, bydd gweithgareddau yn cyfateb yn uniongyrchol â datblygu'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd a Llesiant Meddyliol, ac yn sicrhau cydweithio agosach rhwng Gwasanaethau Ieuencid a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Mae meini prawf y grant, y bydd awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gynllunio eu rhaglenni gwaith, yn cael eu llunio ar hyn o bryd. Ond, rhagwelir y byddant yn cefnogi model anfddygol o ymyrryd a fydd wedi'i anelu at ganfod yn gynharach, gweithio mewn partneriaeth a broceriaeth cymorth, ac olrhain cynnydd pobl ifanc sy'n dechrau dangos anghenion iechyd meddwl, emosiynol a llesiant.

Argymhelliad 18

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi diweddariad ar argymhellion adroddiad y pwyllgor a ragflaenodd y pwyllgor hwn ar wasanaethau newyddenedigol;
- yn rhoi crynodeb o'r buddsoddiadau a wnaed yn y maes hwn a'r canlyniadau penodol a gyflawnwyd o ganlyniad i'r cyllid hwnnw;
- yn egluro'r sefyllfa o ran gwasanaeth trafnidiaeth newyddenedigol yng ngogledd Cymru.

Ymateb: Derbyn

Cafodd 3ydd argraffiad y safonau Newyddenedigol eu cyhoeddi'n swyddogol ar Rwydwaith Newyddenedigol Cymru yn gynharach eleni.

Mae'r safonau'n defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf a'r canllawiau arfer gorau i'w gwneud yn glinigol berthnasol ac yn berthnasol yn weithredol. Cânt eu dylanwadu gan ddatblygiadau newyddenedigol ledled y Deyrnas Unedig ac maent yn rhoi ystyriaeth i argymhellion a wneir gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM), y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Cenedlaethol (NNAP), Coleg

Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), Bliss a safonau eraill a gyhoeddir yn Lloegr a'r Alban.

Mae Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fontiro'n rheolaidd hyd at gydymffurfiaeth lawn. O ddechrau 2019, bydd gofyn i Fyrddau Iechyd hunanasesu yn flynyddol yn erbyn y Safonau, fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru.

Rhwng 2015 a 2020, bydd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ychydig o dan £110 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer datblygiadau newyddenedigol ledled Cymru. Gwneir y buddsoddiadau mewn nifer o safleoedd aciwt allweddol yng Nghymru gyda'r nod o leihau nifer y mamau a babanod y bydd angen eu trosglwyddo, drwy ddarparu amgylcheddau arbenigol, diogel, cydymffurfiol i sicrhau bod gofal babanod yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r cyllid ar gyfer y cyfnod hwn yn cynnwys:-

- £19 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y Ganolfan Gofal Dwys Newyddenedigol Is-ranbarthol (SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd, a agorwyd gan y Prif Weinidog ym mis Medi 2018;
- £37 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i ddatblygiadau Cam II yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd a gaiff eu cwblhau yn 2019;
- £25 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i Gam II y cynllun Menywod a Phlant yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin a gaiff ei gwblhau yn 2020;
- £10 miliwn sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer darparu Capasiti Newyddenedigol ac Ôl-Newyddenedigol ar safle Ysbyty Singleton;
- £6 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i waith ar yr uned newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Charles, Merthyr a gaiff ei chwblhau yn 2019;
- £2 filiwn sydd wedi'i buddsoddi yn yr uned newyddenedigol ar safle Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd a agorwyd yn ystod gwanwyn 2017

Buddsoddwyd £10 miliwn eisoes mewn gwaith newyddenedigol cam I yn Ysbyty Athrofaol Cymru a Glangwili er mwyn galluogi buddsoddiadau ychwanegol i gael eu gwneud.

Mae trosglwyddiadau newyddenedigol yn cynorthwyo i sicrhau bod babanod yn cael y lefel briodol o ofal mewn uned sydd fwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion.

Darperir gwasanaethau trafndiaeth newyddenedigol yng Ngogledd Cymru gan y tîm yn Ysbyty Glan Clwyd dros gyfnod o 12 awr. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniant gyda Rhwydwaith Newyddenedigol Swydd Caer a Mersi i gefnogi gwaith gyda nifer fach o fabanod sâl iawn/llawfeddygol/cardiaidd y tu allan i oriau sydd angen eu trosglwyddo ar frys i Uned ranbarthol yn GIG Lloegr. Disgwylir i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gomisiynu adolygiad allanol i Drafnidiaeth Newyddenedigol yn 2019-20 er mwyn llywio'r Llwybr Gofal Integredig ar gyfer 2020-23, a fydd yn adolygiad Cymru gyfan.

Argymhelliad 19

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o eglurder ar amseriad penderfyniadau mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer iechyd meddwl amenedigol - yn enwedig cymorth unedau mamau a babanod i deuluoedd o bob rhan o Gymru, gan gynnwys y gogledd.

Ymateb: Derbyn

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau haen 4 i fyrddau iechyd yng Nghymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar o ran y cynnydd mewn cysylltiad ag adnoddau unedau mamau a babanod.

Caiff diweddariad pellach yn y maes hwn ei ddarparu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu manylion pellach am yr adnoddau ar gyfer yr uned mamau a babanod pan gawn yr opsiynau wedi'u costio.

Gallwn gadarnhau bod tua £0.5 miliwn o'r £7 miliwn o gyllid trawsnewid wedi ei ddyrannu gan fyrddau iechyd i gryfhau gwasanaethau iechyd meddwl

newyddenedigol, a chaiff effaith y cyllid hwn ei fonitro gan swyddogion dros y flwyddyn nesaf.

Yn ychwanegol at yr uchod, caiff gwasanaethau iechyd meddwl newyddenedigol eu blaenoriaethu yn 2019-20 ar gyfer cymorth ariannol pellach o'r cyllid iechyd meddwl ychwanegol a gaiff ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd.

Argymhelliad 20

Bod Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol yn defnyddio unrhyw gyllid canlyniadol sy'n codi o ganlyniad i ardoll diwydiant diodydd ysgafn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymysg plant yn uniongyrchol, gan ddangos dyraniadau o'r fath yn glir mewn Cyllidebau Drafft yn y dyfodol fel y gellir craffu ar eu heffaith.

Ymateb: Gwrthod

Ynghyd â chyflwyno'r ardoll diwydiant diodydd meddal, cynyddodd Llywodraeth y DU wariant mewn nifer o feysydd yn Lloegr yng Nghyllideb mis Mawrth 2016 yn ymwneud ag ymestyn y diwrnod ysgol, chwaraeon ysgol a chlybiau brechwast. O ganlyniad i'r mesurau gwariant hyn, cafodd Cymru £57 miliwn dros y cyfnod pedair blynedd, gyda setliad refeniw ar ei gyfer (2016-17 i 2019-20). Mae'r ffaith nad yw'r cyllid a gawn o ganlyniad i fesurau gwariant a gyhoeddir yn Lloegr yn cael ei glustnodi at ddibenion penodol yn un o egwyddorion pwysig datganoli. Yn unol ag arferion a sefydlwyd, cafodd yr arian a gawsom ei ychwanegu at ein cronfeydd wrth gefn a'i ddyrannu mewn cyllidebau dilynol yn unol â'n blaenoriaethau strategol, gan gynnwys hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb. Nid oes gennym setliad y tu hwnt i gyfnod y gyllideb bresennol. Bydd penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau mewn blynyddoedd dilynol yn cael eu gwneud mewn cyllidebau'r dyfodol yn unol â'n blaenoriaethau.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ystod o weithgareddau iechyd ac addysg i wella canlyniadau i blant yng Nghymru. Yn ddiweddarach y mis hwn, byddwn yn lansio ymgynghoriad 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a fydd yn ystyried amrywiaeth o gynigion i fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant. Caiff strategaeth derfynol ei lansio erbyn mis

Hydref 2019 drwy ymrwymiad o fewn ein Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru.

Argymhelliad 21

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro'r dadansoddiad o'r £15 miliwn o ran yr hyn a fydd yn cael ei roi fel grant i awdurdodau lleol, beth fydd yn cael ei roi yn y Grant Cynnal Refeniw ac unrhyw ddyraniad arall;
- yn monitro canlyniadau'r dyraniad, yn enwedig i ba raddau maent yn llwyddiannus wrth leihau'r angen i blant dderbyn gofal yn y tymor hwy.

Ymateb: Derbyn

Caiff y £15 miliwn ei ddyrannu yn 2019-20 drwy'r Gronfa Gofal Integredig i'r Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol. Caiff y Gronfa ei dyrannu'n rhanbarthol i gynnal gwaith integredig a chydweithredol rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector o fewn ardaloedd byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Bydd dyraniadau 2019-20 ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig yn parhau i gael eu cyfrifo gan ddefnyddio fformiwla'r bwrdd iechyd sy'n seiliedig ar anghenion. Y Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol fydd yn penderfynu sut y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i gynorthwyo i leihau'r angen am ofal yn seiliedig ar anghenion eu poblogaethau. Nodir y dyraniadau isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	£1.942 miliwn
Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan	£2.870 miliwn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	£3.189 miliwn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	£2.159 miliwn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	£2.411 miliwn
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda	£1.819 miliwn
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	£0.610 miliwn

Gwneir y trefniadau ar gyfer monitro effaith y cyllid drwy gyfuniad o adroddiadau ansoddol a meintiol gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i gyd-ddylunio canllawiau newydd ar gyfer y

Gronfa Gofal Integredig a'r prosesau adrodd, gan ddefnyddio dull Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau i fonitro effeithiau a chanlyniadau'r rhaglen.

Bydd y Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Wella Calyniadau i Blant yn monitro effaith y buddsoddiad fel rhan o'i raglen waith i leihau'r angen, yn ddiogel, i blant fynd i ofal.

Mae'r £15 miliwn hwn yn un elfen o'r pecyn cymorth ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol i gefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019-20, sy'n cynnwys:

- £20 miliwn wedi'i ychwanegu at y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2019-20 i gydnabod y pwysau cyffredinol ar ofal cymdeithasol cyffredinol – wedi'i ddsbarthu'n benodol drwy'r Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion y gwasanaethau cymdeithasol
- £30 miliwn o grant penodol ar gyfer 2019-20 i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy – i'w rannu drwy'r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer Grant Cynnal Refeniw'r Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion y gwasanaethau cymdeithasol
- £15 miliwn o gyllid grant ar gyfer 2019-20 drwy'r gronfa gofal integredig – i'w ddyrannu gan fformiwla'r bwrdd iechyd ar gyfer penderfyniadau i'w gwneud ar gyfer prosiectau unigol gan y cyd-fyrddau partneriaeth i wella cydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn cefnogi oedolion sydd ag anghenion gofal yn eu cartrefi, gan osgoi eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen, neu sicrhau y gallant ddychwelyd cyn gynted â phosibl ar ôl bod yn yr ysbyty
- £15 miliwn o gyllid grant ar gyfer 2019-20 drwy'r gronfa gofal integredig i ehangu'r gwasanaethau ataliol ac ymyriadau buan i gefnogi teuluoedd a lleihau'r angen i blant fynd i ofal ar gyfer prosiectau unigol
- £2.3 miliwn o grant penodol ar gyfer 2019-20 i'w ddyrannu gan awdurdodau lleol i gryfhau eu darpariaeth o wasanaethau mabwysiadu er mwyn atal plant rhag cael eu derbyn eto i'r system ofal a lleihau'r amser y maent yn ei dreulio yn aros i adael y system ofal drwy gael eu mabwysiadu.

Argymhelliad 22

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i sefydlu amcangyfrif o leiaf o nifer y plant mabwysiedig yng Nghymru a chyllido'r Grant Datblygu Disgyblion yn unol â hynny;
- yn sicrhau bod consortia rhanbarthol y gweithio gydag asiantaethau arbenigol sy'n cynorthwyo plant mabwysiedig a phlant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod cyllid yn darparu'r cymorth sydd ei hangen ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae ein *cenhadaeth genedlaethol* yn ymrwmo i ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, newydd a gaiff ei gynnal gan ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwmo i ragoriaeth, cydraddoldeb a llesiant. Yn unol â hyn, rydym am sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru – gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal a'r rhai a oedd yn derbyn gofal – yr hawl i gael gafael ar system addysg sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial. Rydym oll yn cydnabod y gall cyrhaeddiad addysgol da fod yn borth i sefydlogrwydd a sicrwydd yn y dyfodol a bywyd annibynnol llawn boddhad.

Rydym yn cydnabod bod plant a oedd yn arfer derbyn gofal yn parhau i fod angen cymorth, hyd yn oed ar ôl cael eu mabwysiadu. Ni fydd yn bosibl goresgyn trawma a cholled cynnar drwy roi Gorchymyn Mabwysiadu yn unig. Er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r nifer o blant sydd wedi eu mabwysiadu yng Nghymru a'u hanghenion addysgol, rydym wedi ymrwmo i ystyried y casgliad o ddata am blant sydd wedi eu mabwysiadu drwy CYBLD. Bydd angen newid mewn rheoliadau ar gyfer casglu'r data hyn, a bydd hynny'n cymryd amser, felly nid yw'n bosibl cyflwyno hyn ar unwaith.

Yn y cyfamser, fodd bynnag, rydym wedi ysgrifennu at yr holl benaethiaid yn gofyn iddynt fod yn ymwybodol o bwy yw'r plant sydd ganddynt sydd wedi eu mabwysiadu a sicrhau bod cymorth addysgol priodol ar gael.

Rydym hefyd wedi sicrhau hyblygrwydd yn nhelerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn galluogi defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant sydd wedi eu mabwysiadu.

Caiff yr elfen hon o'r Grant Datblygu Disgyblion ei chadw gan y consortia addysg rhanbarthol yng Nghymru. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i neilltuo ar gyfer pob plentyn; mae hyn yn galluogi'r consortia, drwy weithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid eraill, i benderfynu ar yr ymyriadau mwyaf effeithiol a strategol o gefnogi trefniadau addysgol waeth beth fydd y newidiadau o ran gofal neu leoliad ysgol. Mae pob consortiwm yng Nghymru yn cyflogi cydlynnydd arweiniol sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglen strategol o waith i sicrhau defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

Mae gwaith rhagorol wedi cael ei wneud gan y pedwar consortia addysg rhanbarthol drwy eu dyraniad o'r grant, gan weithio gydag asiantaethau arbenigol, gan gynnwys dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion i sicrhau eu bod wedi paratoi'n well ac yn fwy hyderus o ran cefnogi plant sydd wedi bod drwy drawma neu golled cynnar. Mae gan gydlynwyr arweiniol rhanbarthol gyfle i rannu arferion da mewn rhanbarthau yn eu cyfarfodydd chwarterol, a gaiff eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni i ystyried gweithredu'r elfen hon o'r Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o effaith y grant a'i werth am arian. Gwneir hyn i ymateb i nifer o ffactorau, gan gynnwys argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad *Cyrraedd y nod?* Disgwyliwn i drefniadau diwygiedig ddod i rym o fis Ebrill 2019.

Argymhelliad 23

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyllideb CAF/CASS ar gyfer 2019-20, a fydd yn cynnwys ystyried cynyddu'r dyraniad refeniw, fel mater o flaenoriaeth, a'i rannu gyda ni;

▪ yn darparu eglurder a sicrwydd ynghylch digonolrwydd cyllideb CAF/CASS ar gyfer 2019-20 yng ngoleuni cyfeiriad y Gweinidog at “gyllideb ddrafft ddiogel ar gyfer y flwyddyn nesaf”.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn derbyn argymhelliad y pwyllgor ac yn ymrwmo i lunio Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIPA) ar gyfer cyllideb 2019-20 Cafcass Cymru erbyn mis Chwefror 2019.

Cafodd cynnydd o £1.04 miliwn i gyllideb Cafcass Cymru o 2019-20 ei adlewyrchu yn y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn galluogi Cafcass Cymru i ariannu holl swyddi presennol Cyngorwyr Llys Teulu i ddiwallu'r galw am wasanaethau a galluogi'r sefydliad i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Mae rheoli'r gyllideb yn gadarn a'r gallu i barhau i ariannu swyddi presennol yn y strwythur sefydliadol yn flaenoriaeth i'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i'r cynnydd yn y gyllideb ac y caiff dyfarniadau cyflog chwyddiannol yn y dyfodol eu hadolygu er mwyn galluogi Cafcass Cymru i ymateb i'r galw uchel parhaus am y gwasanaeth.

Argymhelliad 24

Bod Llywodraeth Cymru:

(i) yn egluro statws ei Strategaeth Tlodi Plant 2015 ac, os yw mewn grym, pa aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am ei chyflawni;

(ii) yn datblygu strategaeth newydd ar dlodi plant i roi cyfarwyddyd i'w weithgarwch i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Dylai'r strategaeth hon nodi'n eglur lle mae cyfrifoldebau unigol dros gamau o fewn y Cabinet. Dylai gwybodaeth am y gyllideb yn y dyfodol adlewyrchu'n glir ddyraniadau i gyflawni'r strategaeth hon a gwella canlyniadau yn y maes hwn.

Ymateb: (i) Derbyn

Mae Strategaeth Tlodi Plant 2015 Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gyfredol gan fod y prif amcanion yn parhau'n berthnasol heddiw. Maent yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith, datblygu sgiliau rhieni a phobl ifanc, lleihau anghydraddoldeb mewn addysg, iechyd a chanlyniadau economaidd, creu economi gref a marchnad lafur sy'n cefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â'r agenda dlodi a lleihau tlodi mewn gwaith, a chamau i gynyddu incwm aelwydydd a mynd i'r afael â'r premiwm tlodi.

Cyn y newid mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol ym mis Rhagfyr 2018, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol oedd yn gyfrifol am y Strategaeth. Ers y newid yn y portffolios Gweinidogol, mae'r cyfrifoldeb am barhau â'r mesurau i leddfu Tlodi Plant bellach yn gyfrifoldeb i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

(ii) Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r grym gofynnol ganddi i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Mae'r pwerau dros y system drethi a lles sy'n ofynnol er mwyn creu newid o'r fath mewn tlodi yn nwylo Llywodraeth y DU. Mae amcanion tlodi plant Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos lle y gallwn gael yr effaith fwyaf o ran gwella canlyniadau i aelwydydd incwm isel gyda'r dulliau sydd ar gael inni.

Gan gydnabod mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi, mae ein ffocws pennaf ar wneud y mwyaf o gyflogadwyedd pobl ac alinio hyn â chreu cyfleoedd cyflogaeth priodol sy'n darparu gwaith teg, boddhaol a chyfleoedd i ddatblygu. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar hefyd yn hanfodol bwysig ar gyfer iechyd hirdymor a datblygiad plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach yn eu hoes.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol, Ffyniant i Bawb, yn cefnogi darparu amcanion tlodi plant drwy ei ffocws ar gyflogadwyedd a thyfu economi gref a thrwy ei maes blaenoriaeth yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r cynlluniau cyflawni sy'n ganolog i'r

Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymadau hyn.

Er ei bod yn bosibl canfod y cyllidebau hynny sy'n ariannu rhaglenni sydd wedi eu hanelu'n bennaf at drechu tlodi plant, megis y Grant Datblygu Disgyblion, mae ein hamcanion tlodi plant yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf ar wella canlyniadau i'r teulu cyfan. Rydym yn gwybod bod mentrau megis y rhai sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Cyflogadwyedd a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a thrwy ddarparu addysg gynradd ac uwchradd a gaiff eu hariannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn gallu cael effaith sylweddol o ran gwella canlyniadau. Fodd bynnag, mae'r dull 'teulu cyfan' hwn yn ei gwneud yn anodd dadgyfuno gwariant er mwyn cael darlun clir o ble mae cyllid rhaglenni wedi gwella canlyniadau i blant sy'n byw mewn tlodi yn benodol.

Argymhelliad 25

Bod Llywodraeth Cymru:

- yn sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad yn nhryloywder yr wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â'r grantiau cydran sy'n ffurfio'r Grant Plant a Chymunedau;
- yn monitro'n agos a yw'r cymorth a ddarperir drwy'r Grant yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am ddiffygion mewn mannau eraill yng nghyllid llywodraeth leol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn derbyn yr angen am dryloywder o ran y ffordd y caiff grantiau eu dyfarnu i awdurdodau lleol i ddarparu'r canlyniadau a fwriedir. Y Grant Plant a Chymunedau yw un o ddau grant sy'n rhan o'r Rhaglen Cyflunio Cyllid sy'n anelu at wneud defnydd mwy effeithiol o gyllid a diwallu anghenion lleol yn well, gan alluogi awdurdodau lleol i weithio'n wahanol, a rhoi mwy o gyfle i ddylunio gwasanaethau i gefnogi awydd y Llywodraeth am ddulliau mwy ataliol, hirdymor. Mae'r rhaglenni sy'n llunio'r Grant Plant a Chymunedau yn aros a byddwn yn monitro'r ddarpariaeth a sicrhau bod amcanion polisi yn cael eu cyflawni.

Un o flaenoriaethau allweddol y Grant Plant a Chymunedau yw rhoi sicrwydd i

Lywodraeth Cymru y caiff y cyllid ei wario yn unol â thelerau'r grant. Byddwn yn monitro gwariant yn chwarterol er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â'i ddiben.